

GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYNGOR BRO MORGANNWG

EICH DEWIS

POLISI GOFAL A CHYMORTH YN Y
CARTREF SY'N CANOLBWYNTIO AR
GANLYNIADAU



4.	Proses	6 - 13
5.	Monitro a Sicrhau Ansawdd	14 – 16
6.	Diogelu	17
7.	Gweithdrefn Gwyno	18
8.	Cymeradwyo ac Adolygu	19
9.	Termau Allweddol	20 – 21

1. CYFLWYNIAD A NODAU

- 1.1 Eich Dewis yw model Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer Gofal a Chymorth hyblyg, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau gartref, wedi'i gynllunio i roi pobl wrth wraidd eu gofal trwy roi rheolaeth, dewis a'r hyblygrwydd iddynt lunio cymorth sy'n cyflawni'r hyn sydd bwysicaf iddynt.
- 1.2 Mae'r polisi hwn yn esbonio beth yw Eich Dewis, sut mae'n gweithredu, a sut y dylai gweithwyr cymdeithasol, darparwyr a dinasyddion sy'n derbyn gofal ei roi ar waith, gan amlinellu ei egwyddorion, ei sail ddeddfwriaethol, ac enghreifftiau ymarferol o'r ffordd y mae wedi'i gymhwyso. Ar gael i unrhyw oedolyn dros 18 oed sydd ag anghenion cymwys o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae Eich Dewis yn trawsnewid gofal cartref yn system sydd wedi'i gwreiddio mewn partneriaeth, grymuso a hyblygrwydd, gan alluogi pobl i ddefnyddio eu hamser gofal yn ystyrlon, gweithio ar y cyd â darparwyr i gyflawni canlyniadau go iawn, a phrofi parch, dewis ac annibyniaeth yn eu bywydau bob dydd.



- 1.3 Mae Eich Dewis yn cynrychioli ymrwymiad cyffredin i ddarparu gofal sy'n galluogi pobl i fyw, nid rhoi cymorth yn unig.
- 1.4 Mae Eich Dewis yn fodel hyblyg, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sy'n disodli'r dull traddodiadol, anhyblyg o ofal cartref sy'n seiliedig ar amserlenni. Yn hytrach na rhagnodi amseroedd ymweliad sefydlog neu restrau tasgau, mae gan bob person fwndel cytunedig o oriau y gellir eu defnyddio'n hyblyg i gyflawni eu canlyniadau personol a nodwyd.
- 1.5 Mae gwasanaethau gofal a chymorth yn cael eu cynllunio gyda phobl, nid ar eu cyfer. Mae'r unigolyn a'i ddarparwr gofal yn cytuno ar y ffordd orau o ddefnyddio eu horiau gofal bob wythnos, gan addasu wrth i anghenion neu ddewisiadau newid, fel bod cymorth yn parhau i fodloni'r canlyniadau a nodwyd yn eu cynllun gofal a chymorth.
- 1.6 Mae'r hyblygrwydd hwn, ynghyd â gweithio ar y cyd, yn helpu i rymuso pobl ac yn eu helpu i reoli eu bywydau. Mae'n galluogi pobl i fyw bywydau llawnach a mwy annibynnol, boed hynny trwy gefnogaeth i fynychu gweithgareddau cymunedol, ymweld â ffrindiau, neu gynnal arferion dyddiol mewn ffyrdd sy'n addas iddyn nhw.

2. DEDDFWRIAETH

- 2.1 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu'r fframwaith ar gyfer yr holl ofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru. Mae'n pwysleisio:
 - a. Lles, annibyniaeth a rheolaeth.
 - b. Ffocws ar ganlyniadau personol, nid gwasanaethau yn unig.
 - c. Gweithio mewn partneriaeth rhwng unigolion, teuluoedd, darparwyr a gweithwyr proffesiynol.
- 2.2 Mae'r polisi Eich Dewis wedi'i alinio'n llawn â:

Deddf	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
-------	---



Rheoliadau	Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwysra) (Cymru) 2015
Codau Ymarfer	Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu Anghenion Unigolion) Mae'r rheoliadau a'r cod ymarfer statudol mewn perthynas â Rhan 3 yn cynnig eglurder a chyfarwyddyd ar adrannau 19, 21 a 24 y Ddeddf.
	Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion) Mae'r rheoliadau a'r cod ymarfer statudol mewn perthynas â Rhan 4 yn cynnig eglurder a chyfarwyddyd ar adran 32 y Ddeddf.
	Rhan 4 a 5 y Cod ymarfer (Codi Ffioedd ac Asesiadau Ariannol) Y cod ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 4 (taliadau uniongyrchol a dewis llety) a Rhan 5 (codi ffioedd ac asesiadau ariannol) o'r Ddeddf.
	Offeryn Asesu a Chymhwysra Cenedlaethol
Deddfwriaeth a Chanllawiau Eraill	Deddf Galluedd Meddyliol 2005

- 2.3 Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â Pholisi Cymhwysedd Gwasanaethau Oedolion Cyngor Bro Morgannwg.



3. EGWYDDORION

- 3.1 Mae egwyddorion Eich Dewis wedi cael eu cyd-gynhyrchu gyda darparwyr gofal a swyddogion y cyngor, ac wedi'u llunio gan adborth gan bobl sy'n derbyn gofal.
- 3.2 Yr hyn sydd bwysicaf i bobl yw mwy o ddewis, hyblygrwydd, parch a gweithio mewn partneriaeth go iawn.
- 3.3 Mae'r dull cydweithredol hwn a'r set o egwyddorion yn gosod y safon ar gyfer sut olwg ddylai fod ar ofal da ym Mro Morgannwg a sut ddylai deimlo.

Egwyddor	Disgrifiad	Sut Mae'n Edrych	Sut Mae'n Teimlo
Gofal a Chymorth sy'n Canolbwyntio ar Ganlyniadau	Mae gofal yn helpu pobl i gyflawni eu nodau a byw bywydau ystyrlon.	Mae cymorth wedi'i gynllunio i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i'r person, nid i lenwi slotiau amser.	<i>"Mae fy ngofal yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i mi - rwy'n cael fy nghefnogi i gyflawni fy nodau fy hun, nid dim ond cwblhau rhestr o dasgau."</i>
Hyblygrwydd	Mae gofal a chymorth yn addasu i anghenion a dewisiadau sy'n newid.	Mae gofal yn addasu'n greadigol i anghenion a dewisiadau sy'n newid.	<i>"Gall fy ngofal newid pan fydd fy nghynlluniau yn newid - mae'n ffitio o gwmpas fy mywyd, nid i'r gwrthwyneb."</i>
Gweithio Cydweithredol	Mae pawb yn gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i gyflawni'r canlyniadau gorau.	Mae pawb - yr unigolyn, y darparwr a'r gweithwyr proffesiynol - yn gweithio gyda'i gilydd fel tîm.	<i>"Mae pawb sy'n ymwneud â fy ngofal yn siarad â'i gilydd - mae'n teimlo fel ymdrech tîm."</i>
Gwerthoedd	Mae parch, urddas ac unigolrwydd wrth wraidd pob rhyngweithiad.	Mae parch, urddas ac unigolrwydd wrth wraidd pob rhyngweithiad.	<i>"Mae'r bobl sy'n ymwneud â'm gofal a minnau'n gweithio gyda'n gilydd gyda pharch a dealltwriaeth - rwy'n teimlo fy mod yn cael fy nghydnabod fel person, nid defnyddiwr gwasanaeth yn unig."</i>



Grymuso	Mae gan bobl lais, dewis a rheolaeth wrth lunio eu gofal.	Mae gan bobl lais a rheolaeth go iawn dros eu gofal.	<i>"Rwy'n cael fy nghefnogi i wneud penderfyniadau am fy ngofal - rwy'n teimlo ynghlwm ac mewn rheolaeth"</i>
----------------	---	--	---



4. PROSES

- 4.1 Er mwyn cael gfael ar gymorth a ddarperir gan Gyngor Bro Morgannwg, rhaid i berson gael ei asesu o dan [Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#)
- 4.2 Pan fo Gofal a Chymorth yn y Cartref (Gofal Cartref) yn cael ei nodi trwy asesiad fel y ffordd fwyaf priodol o ddiwallu canlyniadau person, bydd yr unigolyn yn cael ei gefnogi gan Eich Dewis.
- 4.3 **Gofal a Chymorth sy'n Canolbwyntio ar Ganlyniadau**
- 4.3.1 Mae canlyniadau wrth wraidd Eich Dewis. Deall beth sydd bwysicaf i'r unigolyn a sicrhau bod gofal wedi'i gynllunio i'w helpu i gyflawni ei flaenoriaethau yw'r ffocws. Mae canlyniadau yn arwain pob cam o'r broses - o asesu a chynllunio i gyflwyno ac adolygu o ddydd i ddydd - gan sicrhau bod y gefnogaeth yn parhau i fod yn ystyrlon, wedi'i deilwra ac wedi'i alinio â nodau a dyheadau'r person.
- 4.3.2 Trwy ganolbwyntio gofal ar ganlyniadau yn hytrach na thasgau neu amseroedd, mae Eich Dewis yn hyrwyddo annibyniaeth, ymrymuso ac ymdeimlad cryfach o reolaeth, gan alluogi pobl i fyw'r bywydau maen nhw'n eu dewis mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu eu gwerthoedd, eu trefn bob dydd a'u dewisiadau.
- 4.4 **Cynllunio Gofal a Chymorth**
- 4.4.1 Bydd y gweithiwr cymdeithasol, yr unigolyn (a lle bo'n briodol, ei deulu, ei ofalwr neu'i eiriolwr) yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu **Cynllun Gofal a Chymorth**.
- 4.4.2 Mae'r cynllun hwn yn amlinellu:
- Canlyniadau personol yr unigolyn.
 - Y rhwystrau sy'n atal y canlyniadau hynny.
 - Y cymorth sydd ei angen i oresgyn rhwystrau
 - Yr amser y gallai ei gymryd i gyflawni'r canlyniadau hyn
 - Y **bwndel o oriau** y cytunwyd arno sy'n ofynnol i fodloni'r canlyniadau hynny.
- 4.4.3 Mae'r **Cynllun Gofal a Chymorth** yn seiliedig ar ganlyniadau, ac yn disgrifio'n glir y nodau penodol y mae'r unigolyn eisiau eu cyflawni a'r math o gefnogaeth a fydd yn ei alluogi i gyflawni hyn. Mae'n darparu fframwaith sy'n adlewyrchu natur hyblyg trefn bob dydd, dewisiadau a chryfderau unigolyn, yn hytrach na rhestru tasgau sefydlog neu weithgareddau sy'n gaeth i amseroedd penodol. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod



cefnogaeth yn parhau i fod yn bersonol ac yn ymatebol, gan helpu pobl i gynnal annibyniaeth, magu hyder a gwella eu lles cyffredinol.

- 4.4.4 Bydd yr unigolyn yn derbyn lwfans wythnosol o oriau gofal a chymorth y cytunwyd arno i ddiwallu ei ganlyniadau asesedig. Cyfeirir at hyn fel **bwndel o oriau** ac mae'n cynnig yr hyblygrwydd i bobl a darparwyr benderfynu sut orau i ddefnyddio amser i gyflawni canlyniadau personol, yn hytrach na chael eu cyfyngu gan amserlen anhyblyg o ymweliadau.
- 4.4.5 Mae'n galluogi gofal i addasu'n naturiol o amgylch ffordd o fyw, dyheadau a dewisiadau'r unigolyn, tra'n sicrhau bod cymorth yn parhau i fod yn gyson ag anghenion asesedig.
- 4.4.6 Bydd gweithwyr cymdeithasol yn adolygu'r **Cynllun Gofal a Chymorth** bob blwyddyn i sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu anghenion yr unigolyn, yn adlewyrchu ei ganlyniadau, ac yn hyrwyddo annibyniaeth a lles. Mae newidiadau mewn amgylchiadau neu nodau newydd yn cael eu hymgorffori mewn cynlluniau wedi'u diweddarau.

4.5 Cynllun Personol Eich Dewis

- 4.5.1 Mae **Cynllun Personol Eich Dewis** yn cael ei ddatblygu ar y cyd gan y person sy'n derbyn gofal (a'i deulu neu eiriolwr, lle bo hynny'n briodol) a'i ddarparwr gofal. Mae'n nodi sut y caiff y **bwndel o oriau** a gytunwyd ei ddefnyddio'n hyblyg i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd yn y **Cynllun Gofal a Chymorth**.
- 4.5.2 Mae Eich Dewis yn cydnabod y gall arferion ac anghenion pobl amrywio o wythnos i wythnos. Mae **Cynllun Personol Eich Dewis** yn caniatáu i unigolion, mewn partneriaeth â'u darparwr, wneud addasiadau angenrheidiol i sut mae gofal yn cael ei ddarparu fel bod cymorth yn parhau i adlewyrchu eu dewisiadau, eu dyheadau a'u hamgylchiadau dyddiol.
- 4.5.3 Mae **Cynllun Personol Eich Dewis** yn hyrwyddo creadigrwydd, ymateboldeb a gwneud penderfyniadau ar y cyd - gan sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu *gyda'r* bobl, nid *ar eu cyfer* a'u bod yn parhau i **ganolbwyntio ar ganlyniadau** bob amser.
- 4.5.4 Bob 3 mis mae'r **Cynllun Personol Eich Dewis** yn cael ei adolygu gan yr unigolyn, ei ddarparwr gofal, a, lle bo'n briodol, ei deulu neu'i eiriolwr. Mae'r adolygiad rheolaidd hwn yn sicrhau bod y cynllun yn parhau i ddiwallu anghenion yr unigolyn, yn cefnogi ei ganlyniadau ac yn hyrwyddo annibyniaeth a lles. Mae unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau, dewisiadau neu nodau newydd yn cael eu hadlewyrchu mewn cynlluniau wedi'u diweddarau i sicrhau bod gofal yn parhau i fod yn ymatebol ac wedi'i deilwra.

4.6 Hyblygrwydd



4.6.1 Mae hyblygrwydd yn allweddol i lwyddiant Eich Dewis. Mae'n galluogi pobl i addasu eu gofal a'u cymorth mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu eu bywydau bob dydd, eu dewisiadau a'u dyheadau - ochr yn ochr â chadw pobl yn ddiogel, sicrhau bod gofal yn ddibynadwy, a gwneud yn siŵr bod pawb yn gwybod beth sy'n cael ei ddisgwyl. Pwrpas hyblygrwydd yw rhoi rheolaeth a rhyddid gwirioneddol i bobl dros sut caiff eu **bwndel o oriau** y cytunwyd arnynt ei ddefnyddio, gan gefnogi annibyniaeth a lles heb fod yn gaeth i amserlen benodol.

4.6.2 Anogir hyblygrwydd i gefnogi pobl i allu dewis sut maen nhw'n treulio eu hamser ac ymgorffori gweithgareddau na fyddai fel arall yn bosibl heb gymorth – cofnodir hyn yn y **Cynllun Personol Eich Dewis**.

4.6.3 Mae'r hyblygrwydd cynlluniedig hwn yn galluogi unigolion i addasu eu trefniadau gofal i gefnogi eu canlyniadau a'u dyheadau personol, ond nid yw'n galluogi newidiadau mewn anghenion neu amgylchiadau a aseswyd. Mae newidiadau mewn angen neu amgylchiadau a asesir yn gofyn am weithiwr cymdeithasol.

4.7 Cynllunio oriau gofal hyblyg

4.7.1 Gall pob person sy'n derbyn Gofal a Chymorth yn y Cartref Eich Dewis addasu oriau gofal o wythnos i wythnos o fewn **8% o hyblygrwydd**, ar yr amod bod cyfanswm yr oriau yn alinio dros gyfnod o 13 wythnos.

4.7.2 Gall yr oriau hyblyg a gynllunnir gynnwys:

- Defnyddio mwy o oriau yn gynharach yn y cyfnod 13 wythnos a lleihau eu defnydd yn ddiweddarach yn y cyfnod 13 wythnos.
- Arbed oriau nas defnyddiwyd yn y cyfnod 13 wythnos i'w defnyddio yn ddiweddarach yn y cyfnod 13 wythnos.
- Addasu amseroedd neu hyd ymweliad safonol i ddarparu ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol, cymunedol neu les.
- Cyfuno neu ailddyrannu galwadau i wneud gwell defnydd o amser cymorth.

4.7.3 Amlinellir enghreifftiau o hyblygrwydd isod ac fe'u cynhwysir yn yr atodiad i'r polisi hwn.

Math o Hyblygrwydd	Enghraifft
Defnyddio mwy o oriau yn gynharach yn y cyfnod 13 wythnos a	<i>Hoffai Mrs Smith gael ei gwallt wedi'i wneud ar gyfer parti teuluol yn wythnos 2. Ar ôl siarad â'i hasiantaeth gofal, maen nhw'n cytuno i ddefnyddio'r amser y mae'n arbed o beidio â bod angen galwadau amser cinio am ddau ddiwrnod pan</i>



lleihau'r defnydd yn ddiweddarach.	<i>fydd ei theulu yn aros gyda hi yn wythnos 4 i fynd â hi i'r apwyntiad gwallt.</i>
Arbed oriau nas defnyddiwyd i'w defnyddio yn ddiweddarach yn y cyfnod 13 wythnos.	<i>Mae Mrs Evans yn cysylltu â'i hasiantaeth gofal o fewn y cyfnod rhybudd y cytunwyd arno i ganslo ei galwadau amser cinio gan y bydd ei theulu yn ymweld. Mae'r asiantaeth yn cytuno i drosi'r amser hwn yn alwad gymdeithasol mewn ychydig wythnosau yn lle, gan fod Mrs Evans wedi gofyn am gymorth i fynd i siopa Nadolig.</i>
Addasu amseroedd ymweld neu eu hyd ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol, cymunedol, neu les	<i>Mae Mr Patel fel arfer yn derbyn tair galwad gyda'r nos bob wythnos. Mae'n gofyn a oes modd symud un o'r rhain i'r prynhawn er mwyn iddo allu ymweld â grŵp cymunedol lleol. Ar ôl ei drafod gyda'i asiantaeth gofal, maen nhw cytuno i addasu'r amseroedd ar gyfer yr wythnos honno i gefnogi ei ddewis a'i les.</i>
Cyfuno neu ailddyrannu galwadau i wneud gwell defnydd o amser cymorth	<i>Mae Mrs Roberts yn derbyn galwad gymdeithasol bob wythnos. Mae hi'n gofyn a oes modd iddi arbed dwy o'r galwadau hyn, fel bod ganddi ddigon o amser i fynychu sioe theatr leol gyda'i gweithiwr gofal. Mae'r asiantaeth gofal yn gwirio bod hyn yn dod o fewn ei horiau a gytunwyd ac yn cadarnhau'r newid.</i>

- 4.7.4 Dylai pob newid i ddarpariaeth gofal gael ei gynllunio a'i gytuno ymlaen llaw rhwng yr unigolyn (neu ei gynrychiolydd) a'r darparwr gofal i sicrhau bod y cymorth yn parhau i fod yn ddiogel, yn gymesur â'r angen, ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau.
- 4.7.5 Ni ddylid ystyried hyblygrwydd wedi'i gynllunio i ddigolledu am newidiadau mewn anghenion neu amgylchiadau a aseswyd, neu i arbed oriau nas defnyddiwyd ar ôl i'r cyfnod o 13 wythnos ddod i ben.
- 4.7.6 Gellir dod o hyd i gyngor pellach ynghylch hyblygrwydd wedi'i gynllunio ym mhecyn cymorth Eich Dewis. Atodiad 1.
- 4.7.7 Os, yn ystod sgwrs, mae unigolyn yn nodi canlyniad personol sydd y tu allan i'r Cynllun Gofal a Chymorth cyfredol, gellir cynnig adolygu cynllun gofal a chymorth yr unigolyn. Ni ellir ystyried canlyniadau nad ydynt yn gymwys ar gyfer Gofal a Chymorth fel rhan o wasanaeth yr unigolyn.
- 4.7.8 Os yw gofal a chymorth unigolyn yn gyson yn fwy neu'n disgyn y tu allan i'r **ystod hyblygrwydd o 8%**, neu os oes arwyddion o newid parhaus mewn angen neu amgylchiadau, rhaid i'r darparwr hysbysu'r **Tîm Derbyn ac Asesu yn Cyswllt Un Fro (01446 700111)** neu **weithiwr cymdeithasol dynodedig** yr unigolyn i ofyn am adolygiad.



4.8 Gweithio Cydweithredol

- 4.8.1 Mae gweithio ar y cyd yn egwyddor graidd o Eich Dewis. Mae cydweithredu yn pwysleisio partneriaeth rhwng yr unigolyn sy'n derbyn gofal, ei ddarparwr gofal, a'r Cyngor. Mae pob partner yn chwarae rhan weithredol wrth gynllunio, darparu ac adolygu gofal i sicrhau ei fod yn parhau i ganolbwyntio ar ganlyniadau ac yn ystyrlon. Mae Eich Dewis yn galluogi pobl i gael llais cryfach a mwy o reolaeth dros sut mae eu gofal a'u cymorth yn cael eu darparu trwy weithio gyda'i gilydd.
- 4.8.2 Mae meithrin ymddiriedaeth a rhannu cyfrifoldeb yn sicrhau bod gwasanaethau'n ymatebol i'r hyn sydd bwysicaf i bobl ac yn cael eu cyflwyno gyda chysondeb a dealltwriaeth a rennir.
- 4.8.3 Mae cydweithio hefyd yn hyrwyddo ansawdd cyson ar draws holl ddarparwyr Eich Dewis ym Mro Morgannwg.
- 4.8.4 Trwy gyfathrebu'n rheolaidd, rhannu arfer da, a datrys problemau gyda'i gilydd, gall darparwyr a gweithwyr proffesiynol ddysgu oddi wrth ei gilydd a gweithredu a chyflawni Eich Dewis yn effeithiol i bawb sy'n derbyn gofal a chymorth. Mae'r dull hwn a rennir yn helpu i fagu hyder wrth ddarparu gofal hyblyg, yn cryfhau perthnasoedd, ac yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl i unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth.

4.9 Rôl yr Unigolyn sy'n Derbyn Gofal

- 4.9.1 Mae pobl yn bartneriaid yn eu gofal eu hunain. Maen nhw'n:
- Cydlunio ac addasu eu Cynllun Personol gyda'u darparwr.
 - Cytuno ar unrhyw newidiadau dros dro neu barhaol mewn cymorth.
 - Cyfathrebu'n agored â'u darparwr a'u gweithiwr cymdeithasol
 - Nodi canlyniadau personol i lywio unrhyw newidiadau yn eu cynllun gofal a chymorth
 - Cymryd rôl weithredol wrth gyflawni eu canlyniadau personol.

4.10 Rôl y Gweithiwr Cymdeithasol

- 4.10.1 Mae gweithwyr cymdeithasol yn gomisiynwyr gofal a chymorth. Maen nhw'n:
- Cynnal asesiadau a datblygu'r Cynllun Gofal a Chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.
 - Sicrhau bod y cynllun yn disgrifio canlyniadau'n glir



- c. Galluogi'r darparwr gofal a'r unigolyn sy'n derbyn gofal i ddatblygu **Cynllun Personol Eich Dewis**
- d. Helpu i roi'r cynllun ar waith i gychwyn a mynychu cyfarfodydd adolygu lle bo angen.
- e. Adolygu a diweddarau lle mae person yn nodi canlyniad personol sydd y tu allan i'r Cynllun Gofal a Chymorth cyfredol
- f. Gwneud newidiadau i'r cynllun Gofal a Chymorth

4.11 Rôl y Darparwr Gofal

4.11.1 Darparwyr yw'r bobl sy'n darparu gofal a chymorth. Maen nhw'n:

- a. Gweithio ar y cyd â'r unigolyn i ddatblygu **Cynllun Personol Eich Dewis**.
- b. Cofnodi a monitro'r defnydd o'r **bwndel o oriau**
- c. Sicrhau bod hyblygrwydd yn parhau i fod o fewn y lwfans **8% hyblygrwydd**.
- d. Rhoi gwybod i'r gweithiwr cymdeithasol os yw'r unigolyn yn nodi canlyniad personol sydd y tu allan i'r Cynllun Gofal a Chymorth cyfredol
- e. Mynychu **Fforwm Darparwyr Eich Dewis** i arddangos enghreifftiau o ganlyniadau cadarnhaol i bobl i'r cyngor.
- f. Rhannu enghreifftiau gyda darparwyr Eich Dewis eraill o arferion cadarnhaol a dysgu sy'n cefnogi gwelliannau.

4.12 Gwerthoedd

4.12.1 Dim ond trwy sicrhau bod pob person yn cael ei weld, ei glywed a'i drin fel partner cyfartal y gall pobl weithio'n llwyddiannus mewn cydweithrediad.

4.12.2 Wrth wraidd Eich Dewis mae parch, urddas ac unigolrwydd - gan sicrhau bod cyfraniad pob person a'i unigrywiaeth yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi.

4.12.3 Trwy ymgorffori gwerthoedd mewn ymarfer bob dydd, mae Eich Dewis yn creu diwylliant lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu parchu a'u cydnabod fel unigolion, nid fel tasgau neu becynnau gofal neu 'ddim ond' gweithiwr gofal.



- 4.12.4 Mae gwerthfawrogi'r holl bobl sy'n ymwneud â darparu gofal yn gwella profiad y person sy'n derbyn gofal.
- 4.12.5 Er mwyn cefnogi llais darparwyr ar y cyd a'r gwerth a ddaw o hyn, bydd y cyngor yn hwyluso fforwm darparwyr Eich Dewis y disgwylir i ddarparwyr fynychu a chyfrannu ato.
- 4.12.6 Mae'r tabl hwn yn disgrifio beth mae'r egwyddor Gwerthoedd yn ei olygu i bobl sy'n derbyn gofal — gan ddangos sut olwg ddylai fod ar gymorth parchus, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sut y dylai deimlo i'r unigolyn.

Egwyddor	Disgrifiad	Sut mae'n edrych	Sut mae'n teimlo
Gwerthoedd	Mae parch, urddas, ac unigolrwydd yn arwain pob rhyngweithiad a phenderfyniad.	• Mae pobl yn cael eu trin â charedigrwydd, cwrteisi ac ystyriaeth bob amser. • Mae gofal yn cael ei ddarparu mewn ffyrdd sy'n cydnabod hanes person, ei hunaniaeth, ei ddewisiadau a'i gryfderau. • Mae staff yn cymryd amser i wrando ac ymateb mewn ffordd sy'n dilysu teimladau a dewisiadau'r unigolyn. • Mae darparwyr a gweithwyr proffesiynol yn gweithredu gyda gonestrwydd a thegwch, gan ddangos parch gwirioneddol at les yr unigolyn.	• <i>"Mae pobl yn siarad â fi gyda pharch — rwy'n teimlo fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi a'm deall."</i> • <i>"Rwy'n cael fy nhrin fel unigolyn, nid dim ond rhywun ar restr."</i> • <i>"Mae staff yn gwrando arnaf ac yn cymryd fy safbwyntiau o ddifrif."</i> • <i>"Rwy'n teimlo'n ddiogel, yn cael fy mharchu ac yn gyfforddus gyda'r bobl sy'n fy nghefnogi."</i> • <i>"Mae fy ngofal yn adlewyrchu pwy ydw i fel person."</i>



		Mae'r gefnogaeth yn cael ei llywio o amgylch y person cyfan, nid dim ond ei anghenion gofal.	
--	--	--	--

4.12.7 Mae'r tabl hwn yn amlinellu sut mae darparwyr yn rhoi'r egwyddor Gwerthoedd ar waith mewn ymarfer bob dydd - gan ddangos yr ymddygiad, y safonau a'r dulliau sy'n creu gofal o ansawdd uchel, sy'n parchu ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

4.12.8 Gweler y pecyn cymorth ar gyfer ymgorffori gwerthoedd yn ymarferol.

4.13 Grymuso

4.13.1 Y llais pwysicaf wrth gyflwyno Eich Dewis yw llais y person sy'n derbyn gofal a chymorth.

4.13.2 Mae Eich Dewis yn rhoi llais pob person wrth wraidd cynllunio a chyflawni, gan gydnabod bod cyfranogiad gwirioneddol yn arwain at ganlyniadau lles cryfach a mwy o ymdeimlad o reolaeth.

4.13.4 Mae grymuso yn agwedd allweddol ar Eich Dewis, sy'n sicrhau bod gan bobl reolaeth ystyrlon dros eu gofal.

4.13.5 Mae Eich Dewis yn hyrwyddo ymrymuso trwy gefnogi unigolion i ddeall eu hawliau, risgiau ac opsiynau, ac i gael eu galluogi i wneud penderfyniadau sy'n adlewyrchu'r hyn sydd bwysicaf iddynt.

4.13.6 Mae'r tabl isod yn dangos sut mae'r egwyddor o rymuso yn cael ei chymhwyso yn ymarferol, gan ddangos sut olwg sydd arno, sut mae'n teimlo, a'r ffyrdd y mae pobl yn cael eu cefnogi i gael llais, dewis a rheolaeth dros eu gofal."

Egwyddor	Disgrifiad	Sut mae'n edrych	Sut mae'n teimlo
Grymuso	Mae gan bobl llais, dewis a rheolaeth wrth lywio eu gofal.	- Mae darparwyr yn mynd ati i holi'r unigolyn a yw'r cymorth yn gweithio'n dda neu oes angen ei newid. - Mae gweithwyr cymdeithasol a darparwyr yn esbonio	"Rwy'n cael fy nghfnogi i wneud penderfyniadau am fy ngofal — rwy'n teimlo'n rhan o'r broses, bod pobl yn gwrandao arna i, a fy mod mewn rheolaeth." "Rwy'n teimlo'n gyfforddus yn dweud beth rydw i



		opsiynau yn glir, fel bod yr unigolyn yn deall ei ddewisiadau a'i hawliau. • Mae pobl yn cael eu cefnogi i fagu hyder mewn cyfarwyddo eu gofal, yn enwedig os ydyn nhw'n teimlo'n ansicr neu'n bryderus am leisio eu barn. • Mae staff gofal yn ymateb yn gadarnhaol pan fydd unigolyn yn gofyn am rywbeth gwahanol, gan ei helpu i deimlo'n ddiogel i fod yn rhan o'r broses. • Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn ffordd sy'n helpu pobl i gymryd rhan yn llawn mewn penderfyniadau am eu gofal.	<i>ei eisiau a gofyn am newidiadau."</i> • <i>"Mae pobl yn esbonio pethau yn glir, fel fy mod i'n deall fy newisiadau."</i> • <i>"Rwy'n teimlo'n hyderus i leisio fy marn oherwydd fy mod i'n gwybod bod fy marn yn bwysig."</i> • <i>"Mae fy ngofal yn gweddu i'm bywyd oherwydd rwy'n rhan o bob penderfyniad."</i>
--	--	--	--



5. MONITRO A SICRHAU ANSAWDD

- 5.1 Mae ansawdd Eich Dewis yn cael ei asesu trwy gyfuniad o brosesau adolygu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, goruchwyllo darparwyr, mecanweithiau adborth, a gwiriadau cysoni; y cyfan wedi'u cynllunio i roi sicrwydd bod Eich Dewis yn cynnal safonau uchel ac yn gwella'n barhaus. Mae monitro a sicrhau ansawdd Eich Dewis yn hanfodol i sicrhau bod pob person yn derbyn gofal sy'n ddiogel, yn ymatebol i'w anghenion, ac yn adlewyrchu'r hyn sydd bwysicaf iddynt.

Monitro Effaith Eich Dewis ar Bobl

5.2 Arolygon Canlyniadau a Boddhad

- 5.2.1 Gofynnir i bobl sy'n derbyn gofal a darparwyr roi adborth o'u profiadau o dderbyn gofal trwy arolygon strwythuredig, gan helpu i nodi beth sy'n gweithio'n dda, a meysydd ar gyfer datblygu
- 5.2.2 Gofynnir i ddarparwyr ddefnyddio offer fel PERCCI (Profiadau Personol o Ofal a Chymorth) i gasglu adborth strwythuredig, cymaradwy gan bobl sy'n derbyn gofal. Mae'r adborth hwn wedyn yn cael ei rannu gyda'r Cyngor i ddangos canlyniadau gofal a gomisiynwyd.

5.3 Pecyn Cymorth

- 5.3.1 Mae PERCCI yn fesur cydnabyddedig sy'n canolbwyntio ar brofiad byw pobl sy'n derbyn gofal gan gynnwys urddas, dewis, rheolaeth ac ansawdd y berthynas â staff. Lle nad yw PERCCI yn addas ar gyfer anghenion person, defnyddir offeryn amgen sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n dal yr un wybodaeth i sicrhau bod pob person sy'n derbyn Eich Dewis yn gallu rhannu ei adborth.
- 5.3.2 Mae defnyddio offeryn wedi'i ddilysu yn sicrhau bod adborth yn cael ei gasglu'n gyson a gellir ei olrhain dros amser ac ar draws yr ystod eang o ddarparwyr sy'n darparu Eich Dewis. Mae'r wybodaeth hon yn galluogi'r Cyngor a darparwyr gofal i ddeall beth sy'n gweithio'n dda, adlewyrchu blaenoriaethau pobl, a nodi cyfleoedd ar gyfer gwella.
- 5.3.3 Mae adborth a gesglir drwy'r offer hyn yn rhan hanfodol o welliant parhaus ar draws Eich Dewis.



Monitro Darpariaeth Eich Dewis gyda Darparwyr:

5.4 Monitro Cysoni sy'n Canolbwyntio ar Ganlyniadau (bob 13 wythnos)

5.4.1 Mae cyfarfodydd adolygu a monitro rheolaidd gyda darparwyr yn sicrhau bod gofal a chymorth Eich Dewis yn parhau i fod yn hyblyg, yn dryloyw ac yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau personol. Mae'r adolygiadau hyn hefyd yn rhoi cyfle i ddysgu, partneriaeth a gwelliant parhaus ar draws darparwyr a'r Cyngor.

5.4.2 Bob 13 wythnos, cynhelir **Cyfarfod Monitro Canlyniadau a Chysoni Eich Dewis** rhwng pob asiantaeth gofal Eich Dewis a Swyddogion Eich Dewis y Cyngor.

5.4.3 Cyn pob cyfarfod monitro:

- a. Mae'r Swyddog Eich Dewis yn cwblhau'r daenlen gysoni a'r daflen fonitro sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gan ddewis sampl o unigolion i roi diweddariad ar eu cynnydd tuag at eu canlyniadau personol.
- b. Rhennir y ddwy ddogfen gyda'r Darparwr cyn y cyfarfod.
- c. Gwahoddir darparwyr i adolygu'r daenlen gysoni ac ymateb i unrhyw ymholiadau a nodwyd gan y Swyddog Eich Dewis.
- d. Mae darparwyr yn diweddarau'r daflen fonitro sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gan ychwanegu gwybodaeth am gynnydd tuag at y canlyniadau a nodir yn y **Cynllun Gofal a Chymorth**.
- e. Mae'r daenlen a'r ffurflen sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn cael eu dychwelyd i'r Swyddog Eich Dewis cyn y cyfarfod.
- f. Gofynnir i ddarparwyr gasglu tystiolaeth sy'n dangos sut mae eu gwasanaeth yn parhau i ddarparu gofal yn unol â phum egwyddor Eich Dewis.

5.4.4 Ym mhob cyfarfod monitro:

- a. Mae'r **Cynllun Personol Eich Dewis** a'r canlyniadau personol a gyflawnwyd yn cael eu hadolygu ochr yn ochr â'r **Cynllun Gofal a Chymorth**.



- b. Mae'r defnydd o **fwndeli oriau** yn cael ei fonitro gan sicrhau bod y model hyblyg yn parhau i gefnogi canlyniadau personol pobl yn effeithiol.
- c. Anogir darparwyr i rannu enghreifftiau o arfer da, gan arddangos sut mae pobl wedi cael eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau trwy ddefnydd creadigol a hyblyg o'u horiau gofal.
- d. Mae unrhyw feysydd lle mae darparwyr angen arweiniad ychwanegol, neu gefnogaeth, hefyd yn cael eu trafod ar y cyd, gan hyrwyddo gwelliant parhaus a dysgu a rennir.

5.4.5 Mae'r cam monitro hwn yn sicrhau:

- a. Bod canlyniadau personol yn parhau i gael eu cyflawni.
- b. Bod hyblygrwydd yn parhau i fod o fewn y lwfans o 8%.
- c. Bod unrhyw oriau a ddefnyddiwyd dros neu o dan y bwndel yn cael eu cysoni trwy BACS neu eu hanfonebu yn ôl yr angen.
- d. Gall y Swyddog Eich Dewis awdurdodi taliadau neu ailgodi taliadau o fewn amrywiad o 8% neu lle nad yw'r gwahaniaethau yn adlewyrchu newid parhaus mewn angen.
- e. Mae angen i weithiwr cymdeithasol awdurdodi unrhyw amrywiadau sy'n fwy na 8% neu sy'n adlewyrchu newid parhaus mewn angen.

5.4.6 Er mwyn ategu prosesau sicrwydd ansawdd ac adrodd rheolaidd, bydd Cyngor Bro Morgannwg yn cynnal **hapwiriadau rheolaidd**. Gall hyn ymwneud â gofal unigolyn neu ddadansoddiad pellach gyda rheolwyr achos a darparwyr ar wybodaeth a gyflwynwyd.

5.4.7 Bydd unrhyw anghysondebau a nodwyd yn cael eu codi gyda'r darparwr i'w trafod a'u datrys. Pan na ellir datrys materion trwy drafodaeth leol a monitro sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, bydd y Cyngor yn rheoli pryderon yn unol â'r trefniadau contract a chomisiynu perthnasol.



5.5 Monitro Contractau

- 5.5.1 Mae'r Cyngor yn cynnal ymweliadau ac adolygiadau contract blynyddol ar gyfer pob asiantaeth gofal cartref, gan gynnwys darparwyr Eich Dewis.

6. DIOGELU

- 6.1 Mae Bro Morgannwg wedi ymrwymo i gadw pobl yn ddiogel tra'n eu cefnogi i gael dewis, llais a rheolaeth dros eu gofal. Mae diogelu yn amddiffyn unigolion rhag camdriniaeth, niwed, esgeulustod neu gam-fanteisio, ac ystyrir risgiau wrth gefnogi pobl i wneud penderfyniadau. Rhaid i staff a darparwyr gofal cymdeithasol ddilyn y canllawiau sydd ar gael gan Fwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro, a gweithredu ar unwaith os oes pryderon. Trwy gydbwyso grymuso a diogelwch, mae Eich Dewis yn galluogi pobl i lunio eu cymorth gyda hyder, diogelwch ac urddas.



7. GWEITHDREFN GWYNO

- 7.1 Gellir datrys llawer o faterion yn gyflym ac yn anffurfiol trwy gyfathrebu'n agored a chydweithio.
- 7.2 Lle bo'n bosibl, dylid ceisio datrys unrhyw bryderon neu gwynion rhwng y **person sy'n derbyn gofal** (neu ei deulu), y **Darparwr Gofal**, a, lle bo'n briodol, y **Gweithiwr Cymdeithasol** neu'r **Swyddog Eich Dewis**
- 7.3 Os na ellir datrys y mater ar y cam hwn, dylid ei gyfeirio at **Dîm Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bro Morgannwg**.
- 7.4 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fynd i'r afael â chwynion yn gyflym, yn deg ac yn unol â'r [Polisi Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol](#).

Cysylltwch â:

 **01446 704800**

 socialservicescomplaints@valeofglamorgan.gov.uk

- 7.5 Os yw'r mater yn parhau heb ei ddatrys ar ôl ymateb y Cyngor, mae ganddynt yr hawl i gysylltu â'r **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**.



8. CYMERADWYO AC ADOLYGU

Dyddiad Cymeradwyo:	XX / XX / 202X
Perchennog:	Swyddog Arweiniol Eich Dewis
Cyswllt:	Swyddog Sicrwydd Ansawdd a Pholisi qualityassuranceteam@valeofglamorgan.gov.uk
Dyddiad yr Adolygiad:	XX / XX / 202X



9. TERMAU ALLWEDDOL

Adolygiadau Gofal a Chymorth Blynyddol: Adolygiad blynyddol gan y gweithiwr cymdeithasol i sicrhau bod y Cynllun Gofal a Chymorth yn diwallu anghenion y person. Mae'n ystyried unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau ac yn diweddarau canlyniadau yn unol â hynny.

Bwndel o Orlau: Cyfanswm nifer yr oriau gofal a chymorth y cytunwyd arnynt dros wythnos. Gellir ei ddefnyddio'n hyblyg i gyflawni canlyniadau, gan gynnig dewis a rheolaeth yn hytrach nag amseroedd ymweld sefydlog.

Cynllun Gofal a Chymorth: Cynllun sydd wedi'i deilwra a'i ddatblygu gyda'r person, y darparwr gofal a'r Cyngor. Mae'n nodi anghenion cymwys, canlyniadau personol a sut y bydd gofal a chymorth yn hyrwyddo annibyniaeth a lles.

Darparwr Gofal: Asiantaeth gofal cartref sy'n darparu cymorth dan Eich Llais. Mae darparwyr yn gweithio'n hyblyg gydag unigolion a'r Cyngor i gyflawni canlyniadau personol yn ddiogel ac yn effeithiol.

Arolygon Canlyniadau a Boddhad: Defnyddir arolygon i gasglu adborth gan bobl sy'n derbyn gofal a darparwyr. Maent yn helpu i fesur i ba raddau mae'r canlyniadau yn cael eu cyflawni ac yn llywio prosesau gwella gwasanaethau.

Canolbwyntio ar Ganlyniadau: Mae dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn rhoi pwyslais ar yr hyn sydd bwysicaf i'r unigolyn - y nodau, y cyflawniadau a'r newidiadau y mae'n dymuno eu gweld yn ei fywyd. Mae'n canolbwyntio ar ganlyniadau a lles yn hytrach na thasgau neu amserlenni penodol, gan sicrhau bod gofal yn cefnogi canlyniadau ystyrlon, dan arweiniad yr unigolyn.

Monitro sy'n Canolbwyntio ar Ganlyniadau a Chysoni: Adolygiad 13 wythnos rhwng y darparwr a'r Swyddog Eich Dewis. Mae'n gwirio cynnydd yn erbyn canlyniadau, yn sicrhau bod hyblygrwydd o fewn y terfynau, ac yn cysoni oriau gofal a thaliadau.

PERCCI: Mae hwn yn offeryn arolwg wedi'i ddilysu a ddefnyddir i ddeall profiadau gwirioneddol pobl o ofal gartref. Mae'n canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf i unigolion - megis teimlo eu bod yn cael eu parchu, cael dewis a rheolaeth, cael eu gwrandao arnynt, a derbyn cymorth dibynadwy, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae PERCCI yn helpu'r Cyngor a'r darparwyr i fesur ansawdd yn gyson, nodi cryfderau ac amlygu meysydd i'w gwella.



Person sy'n Derbyn Gofal: Yr unigolyn a gefnogir trwy'r model Eich Dewis. Mae'n bartner gweithredol wrth gynllunio, adolygu a llywio ei ofal i gyflawni'r hyn sydd bwysicaf iddo.

Archwiliadau Darparwyr: Gwiriadau rheolaidd a gynhelir gan y Cyngor i asesu perfformiad a chydymffurfiaeth y darparwr. Mae archwiliadau yn sicrhau bod gofal yn parhau i fod yn ddiogel, yn hyblyg ac yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau.

Gweithiwr Cymdeithasol: Gweithwyr proffesiynol sy'n asesu anghenion ac sy'n llunio Cynlluniau Gofal a Chymorth. Maent yn sicrhau bod y cymorth yn hyrwyddo annibyniaeth ac yn adolygu cynlluniau pan fydd amgylchiadau neu anghenion yn newid.

Hapwiriadau: Adolygiadau rheolaidd y Cyngor i gadarnhau bod yr oriau gofal a ddarperir yn cyfateb i'r oriau a gomisiynwyd. Trafodir unrhyw anghysondebau gyda'r darparwr er mwyn cynnal cywirdeb ac atebolrwydd.

Swyddog Arweiniol Eich Dewis: Swyddog y Cyngor sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ddarpariaeth Eich Dewis. Mae'n cydlynu cyfarfodydd monitro, awdurdodi addasiadau, ac yn cefnogi darparwyr i gynnal cysondeb ac ansawdd.

Cynllun Personol Eich Dewis: Cynllun hyblyg sydd wedi'i gynhyrchu ar y cyd rhwng yr unigolyn a'i ddarparwr i ddangos sut y bydd y bwndel o oriau yn cael ei ddefnyddio o ddydd i ddydd. Gellir ei addasu o fewn y lwfans hyblygrwydd o 8% i ddiwallu canlyniadau personol.

Fforymau Darparwyr Eich Dewis: Disgwylir i ddarparwyr gymryd rhan weithredol yn y Grŵp Darparwyr Eich Dewis fel rhan o'u hymrwymiad i ofal cydweithredol o ansawdd uchel. Mae'r grŵp hwn yn dod â darparwyr ynghyd â'r Cyngor i rannu dysgu, trafod themâu sy'n dod i'r amlwg, cryfhau cysondeb, a datblygu arfer da ar draws y model. Mae cyfranogiad rheolaidd yn helpu i ddatrys problemau ar y cyd, yn hyrwyddo gwelliant parhaus ac yn sicrhau bod pobl sy'n derbyn gofal yn elwa ar ddull cydgysylltiedig sydd wedi'i alinio.

